**Bridgend County Borough Council**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| **SWYDD:** | Prentis Gofal Cymdeithasol |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR03 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Cynghorydd Dysgu a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol |

---

## DIBEN Y SWYDD:

Gweithio fel Prentis Gofal Cymdeithasol mewn amgylchedd dysgu â chymorth i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni'r Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion).

O dan gyfarwyddyd uwch aelodau staff i weithio ar draws gofal cymdeithasol i oedolion, mewn cartrefi pobl, gofal preswyl a lleoliadau cymunedol, gydag amrywiaeth o unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr.

---

## PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:

- Ymgymryd â rhaglen ddatblygu sy'n arwain at gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chyflawni dyfarniad City & Guilds/CBAC Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion)
- Mynd i ddiwrnodau hyfforddi a chymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu fel sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddiaeth a'r darparwr dysgu.
- Cynnal lleoliadau ar batrwm cylch ar draws gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion i gynnwys gwasanaethau gofal cartref, dydd a darpariaeth gofal preswyl.
- Cymryd rhan mewn rota, gan gynnwys gweithio sifftiau ac ar draws gwasanaethau a gynhelir am 365 diwrnod y flwyddyn.
- Gweithio gydag unigolion mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant ac sy'n parchu amrywiaeth.
- Gweithio gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol, i gynllun y cytunwyd arno, a chyfrannu at gynorthwyo unigolion i wneud y mwyaf o'u penderfyniadau a'u rheolaeth dros eu bywydau a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.
- Cynorthwyo â'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o dasgau, sy'n gallu cynnwys cynorthwyo unigolion â gofal personol a gweithgareddau ymarferol, ymgymryd â thasgau domestig a chefnogi llesiant cymdeithasol ac emosiynol person.
- Gweithio fel rhan o dîm a chyda chydweithwyr o bob rhan o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Yn unol â chyfarwyddyd a chefnogaeth uwch aelodau o staff, cwblhau cofnodion perthnasol yn gywir, lefel berthnasol o fanylion ac mewn modd amserol a chyfrannu at asesu gofal a chymorth, proses gynllunio ac adolygu fel y bo'n briodol

- Cymryd cyfrifoldeb am fod yn ymwybodol o safonau, codau ymarfer, polisïau a gweithdrefnau perthnasol y cyngor ac yn genedlaethol i gynnwys Iechyd a Diogelwch, Codi a Chario, Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
- Tynnu sylw at unrhyw bryderon sy'n ymwneud â gofal a chymorth ac amddiffyn unigolion rydych yn gweithio gyda nhw, yn unol â gweithdrefnau diogelu.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

## GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# Manyleb y Person

## Prentis Gofal Cymdeithasol

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (√).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • O leiaf pum TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg ar radd C neu uwch neu gyfwerth.<br>• Gofyniad i ymgymryd â dyfarniad City and Guilds/CBAC Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) ac i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad (cyflogedig / gwirfoddol) o weithio mewn lleoliad gofal cymdeithasol neu brofiad personol o ofalu am aelod o'r teulu / perthynas.<br>• Gwybodaeth am werthoedd hanfodol sy'n sail i ymarfer ym maes gofal cymdeithasol. | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Sgiliau cyfathrebu da<br>• Gallu cynnal tasgau yn dilyn hyfforddiant a/neu gyfarwyddyd.<br>• Sgiliau prydlondeb da ac yn ddibynadwy<br>• Gallu cadw cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth lle y bo'n briodol.<br>• Gofalgar a thosturiol.<br>• Yn barod i gymryd amser i wrando ac ymgysylltu.<br>• Sgiliau TGCh effeithiol.<br>• Gallu dangos sgiliau trefnu da. | Ydy (Sgiliau cyfathrebu da)<br>Ydy (Gallu cynnal tasgau)<br>Ydy (Gofalgar a thosturiol)<br>Ydy (Sgiliau TGCh)<br>Ydy (Gallu dangos sgiliau trefnu) | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Yn ymrwymedig i'ch datblygiad proffesiynol a phersonol parhaus eich hun<br>• Yn gallu teithio o fewn yr ardal waith ddaearyddol<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |